# SIOE TALYBONT SHOW
# ADRAN B – GARDDWRIAETH AC ATI
# SECTION B – HORTICULTURE, ETC.

## RHEOLAU / RULES

1. DAU GAIS YN UNIG A GANIATEIR YM MHOB DOSBARTH.
   TWO ENTRIES ONLY PERMITTED IN EACH CLASS.

2. Rhaid llanw'r Ffurflen Gystadlu a'i hanfon at Ysgrifenyddes y Ffurflenni Cystadlu: Mrs Marion Evans, Tynant, Talybont, Ceredigion SY24 5DN / 01970 832257 / mariontynant@btconnect.com gyda'r taliad cywir cyn Dydd Iau, 22 Awst 2019.

   NI DDERBYNNIR UNRHYW GEISIADAU I GYSTADLU AR ÔL Y DYDDIAD HWN.

   All Entry Forms must be completed and sent to the Entry Secretary: Mrs Marion Evans, Tynant, Talybont, Ceredigion SY24 5DN / 01970 832257 / mariontynant@btconnect.com with the correct fee on or before Thursday, 22 August 2019.

   NO ENTRIES WILL BE ACCEPTED AFTER THIS DATE.

3. Rhaid gosod yr holl arddangosion rhwng 8 a 10.45am ar fore'r Sioe. Dim ond yr arddangoswyr a ganiateir yn y babell yn ystod gosod yr arddangosion. Cychwynnir y barnu yn brydlon am 11.00am.
   All Exhibits to be staged between 8 and 10.45am on the morning of the Show. Only Exhibitors are allowed in the tent during the staging of exhibits. Judging will begin at 11.00am prompt.

4. Rhaid i'r arddangoswyr osod amlen sy'n cynnwys cerdyn â'i enw/ei henw a chyfeiriad o dan bob Arddangosyn. Bydd yr Ysgrifennydd yn darparu'r cardiau ac ni chaniateir unrhyw rai eraill.
   Exhibitors must place under each Exhibit an envelope containing a card with his/her name and address. All cards will be supplied by the Secretary and no others will be allowed.

5. Er y bydd y stiwardiaid yn gwneud pob ymdrech i oruchwylio'r arddangosion, ni chymerir cyfrifoldeb dros golled neu ddifrod.
   While the stewards will do their best to supervise exhibits, no responsibility is taken for loss or damage.

6. Ni ddylid symud yr arddangosion cyn gorffen cyflwyno'r tlysau.
   Exhibits must not be removed before end of presentation of trophies.

7. Mae'n bosibl y bydd unrhyw wobr ariannol yn cael ei ymatal neu ei addasu os na ystyrir yr arddangosion yn deilwng o'r wobr a gynigir. Bydd penderfyniad y Beirniad yn derfynol.

Any prize money may be with-held or modified if the exhibits are considered unworthy of prize offered. The decision of the Judge is final.

8. Dylid arddangos y blodau mewn ffiol oni nodir yn wahanol.
   Flowers are to be exhibited in vases except where otherwise specified.

9. Rhaid i'r holl arddangosion fod yn berchen i'r Arddangoswyr, wedi'u tyfu neu eu gwneud ganddynt hwy. Os ceir amheuaeth, atelir y wobr ariannol.
   All exhibits to be the property of, grown by, or made by the Exhibitors. In cases of doubt, prize money will be withheld.

10. Bydd penderfyniad y Pwyllgor ar unrhyw gwestiwn nad yw wedi'i grybwyll yn y Rheolau hyn yn derfynol.
    The decision of the Committee on any question not covered in these Rules will be final.

11. Yn ystod y Barnu, rhaid i bawb adael y babell ac eithrio'r Beirniaid a'r Stiwardiaid.
    During the Judging, the tent must be cleared of everyone except the Judges and Stewards.

12. Os bydd datglwm ar gyfer unrhyw wobr, mabwysiadir y system â ganlyn: rhennir y wobr ariannol yn gyfartal, a rhoddir y pwyntiau llawn i'r ddau enillydd – datglwm ar gyfer y wobr 1af, 3 phwynt; 2il wobr, 2 bwynt yr un; 3ydd wobr, 1 pwynt yr un. Ni fydd datglwm mewn Cwpan yn cyfrannu tuag at berchenogaeth.
    Should there be a tie for any prize, the following system will be adopted: the prize money will be shared equally, and the full number of points given to both winners – tie for 1st prize, 3 points each; 2nd prize, 2 points each; 3rd prize, 1 point each. A tie for a Cup will not count towards ownership.

13. Yn yr Adran Cyffeithiau, caniateir i'r Beirniad agor unrhyw gynhwysydd yn ôl yr angen.
    In the 'Preserve' Section, the Judge is permitted to open any container as necessary.

14. Mae gofyn i ddeiliaid cyfredol y Cwpanau ayyb eu dychwelyd i'r Ysgrifennydd erbyn 1 Awst.
    The present holders of Cups etc. are requested to return them to the Secretary by 1st August.

Sylwer: Dosberthir y gwobrau ariannol yn y Babell ar ddiwrnod y Sioe. Ystyrir unrhyw wobrau nad ydynt yn cael eu casglu gan enillwyr lleol fel cyfraniadau i goffrau'r Sioe. Mae modd trefnu bod yr ysgrifennydd yn anfon gwobrau at ymgeiswyr sy'n byw tu allan i'r ardal ond tynnir tâl postio o'r cyfanswm buddugol. Bydd posib gweld enwau buddugwyr cwpanau yn y blynyddoedd blaenorol yn y Babell Arddwriaethol.

Note: Prize Money, etc. will be distributed in the Tent on the day of the Show. Local prizes not collected will be deemed to be donations to the Show Fund. The Secretary will

arrange to send the prizes to Exhibitors living outside the district, only on request, deducting cost of postage. Names of previous year's cup winners will be available for inspection in the Horticulture Tent.

**Ceir un tocyn am ddim i'r maes pan warir £7.50 neu'n fwy ar gystadlu.**
**Entries to the value of £7.50 – One Free Admission Pass.**

SYLWER NI DDERBYNNIR UNRHYW DDALEN GYSTADLU
WEDI'R 22 AWST NAC AR FORE'R SIOE.
N.B. STRICTLY NO ENTRIES AFTER 22 AUGUST NOR
ON SHOW MORNING.